

# Adroddiad ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Hydref 2022

## 1. Dull y Pwyllgor o graffu

1. Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2022, amlinellodd y Prif Weinidog fwriad Llywodraeth Cymru o ddod â Bil yn ei flaen i gyflwyno gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro yn gynnar yn nhymor yr hydref. Dywedodd:

*"Fe fydd hynny'n bodloni ein hymrwymiad allweddol ni yn y rhaglen lywodraethu yn y maes hwn. Ond, yn ogystal â hynny, fe fydd y Bil hefyd yn cefnogi ein her gyfreithiol barhaus ni i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Yn yr ymglyfreitha presennol, a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, mae'r llys wedi nodi y byddai hi'n ddefnyddiol ystyried enghraifft ymarferol, ar ffurf darn o ddeddfwriaeth yn y Senedd, y gellir ei defnyddio i roi prawf ar y materion dan sylw. Bydd y Bil hwn yn rhoi'r enghraifft ymarferol honno, ac yn y cyd-destun hwnnw fe fyddwn ni'n ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes i hwyluso'r gwaith o graffu ar y Senedd o ran y Bil hwn."*

2. Yn fuan wedi hynny, gwnaeth Llywodraeth Cymru gais i'r Pwyllgor Busnes na ddylai'r Bil, o dan Reol Sefydlog 26.9, gael ei gyfeirio at bwyllgor i drafod ei egwyddorion cyffredinol. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor hwn at y Pwyllgor Busnes i ofyn iddo ohirio ei benderfyniad tan ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno.

3. Sicraodd Cadeirydd y Pwyllgor hwn ymrwymiad gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog'), i gyhoeddi Bil drafft i alluogi'r Pwyllgor i wneud rhywfaint o waith craffu y tu allan i'r broses ffurfiol o graffu ar y Bil. Ar 15 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil drafft Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ('y Bil drafft') a chrynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad cysylltiedig a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref



2020. Roedd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal ymgynghoriad byr ar y Bil drafft a chlywed tystiolaeth lafar gan dystion. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Gweinidog gyhoeddi gwybodaeth ategol ochr yn ochr â'r Bil drafft, gan gynnwys y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Penderfynodd y Llywodraeth na allai dderbyn y cais hwn.

**4.** Ar 20 Medi 2022, cyflwynodd y Gweinidog Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ('y Bil') yn y Senedd. Ar yr un diwrnod, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol Ddatganiad Deddfwriaethol ar y Bil, ac ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor yn nodi cynigion i gyflwyno gwelliannau mewn sawl maes yn ystod y gwaith o drafod Cyfnod 2 o'r Bil. Caiff y gwelliannau hyn eu trafod yn adran briodol yr adroddiad hwn.

**5.** Yn unol â chais a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn, ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â'r Pwyllgor cyn gwneud ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26.9. Ar 27 Medi, penderfynodd y Pwyllgor Busnes beidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor i drafod ei egwyddorion cyffredinol.

## **Cylch gorchwyl**

---

**6.** Gofynnodd y Pwyllgor am farn ar y materion a ganlyn ynghylch y Bil drafft –

- A oes angen Bil i gyflwyno gwaharddiad ar eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel yn aml;
- Manteision ac anfanteision defnyddio Bil, yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth, i gyflwyno gwaharddiad;
- A fydd darpariaethau'r Bil drafft yn cyflawni bwriad y polisi;
- A oes rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil drafft (gan gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020);
- A yw'r pwerau yn y Bil drafft i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn briodol;
- A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil drafft;
- Goblygiadau ariannol y Bil drafft (gan gynnwys i fusnesau a defnyddwyr).

## **Tystiolaeth lafar**

---

**7.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y canlynol:

- Jemma Bere, Cadwch Gymru'n Daclus
-

- Richard Caddell, Canolfan Llywodraethiant Cymru
- David Chapman, UK Hospitality Cymru
- Matt Davies, Ffederasiwn Plastigau Prydain
- Will Henson, Sefydliad Materion Cymreig
- Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd
- Brett John, Ffederasiwn Busnesau Bach
- Natalia Lewis-Maselino, Ffederasiwn Plastigau Prydain
- Ben Maizey, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru
- Craig Mitchell, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Judith Parry, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chadeirydd Safonau Masnach Cymru
- Liz Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Megan Thomas, Anabledd Cymru

## Ein barn ni

Hoffem achub ar y cyfle hwn i roi sylwadau ar y broses graffu ar gyfer y Bil hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio osgoi craffu pwyllgor Cyfnod 1 ar y Bil hwn. Fe wnaethom ni sicrhau ymrwymiad gan y Gweinidog y byddai hi'n cyhoeddi Bil drafft, a hynny er mwyn i ni wneud gwaith craffu y tu allan i'r broses ffurfiol o graffu ar y Bil. Pe na byddem wedi gwneud y gwaith hwn, ni fyddai ymgynghoriad cyhoeddus ar ddarpariaethau manwl y Bil, ac ni fyddai cyfle i'r rhai y mae'r cynigion yn effeithio arnynt gael dweud eu dweud.

Ganol mis Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil drafft a chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cysylltiedig a gynhaliwyd yn 2020. Galluogodd hyn ni i ddechrau gweithio dros yr haf. Fodd bynnag, roedd y trefniadau hyn yn llai na boddhaol, yn enwedig o'u cymharu â gwaith craffu pwyllgor Cyfnod 1. Oherwydd yr amseru, dim ond ymgynghoriad cyhoeddus byr yr oeddem yn gallu ei gynnal. Penderfynodd Llywodraeth Cymru na allai dderbyn cais y Pwyllgor i gyhoeddi nodiadau esboniadol, memorandwm esboniadol, nac asesiad effaith ochr

yn ochr â'r Bil drafft. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan randdeiliaid y darlun llawn o waith asesu Llywodraeth Cymru o effaith neu ardrawiad y darpariaethau yn y Bil.

Yn ystod ei sesiwn dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog fwy nag unwaith y byddai ganddi ddiddordeb ym marn y Pwyllgor ar faterion penodol. Rydym yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi ymgysylltu'n adeiladol â'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Bil, a'i bod yn credu bod ein gwaith yn ei gylch yn werthfawr. Ond rhaid inni ei hatgoffa, nad oedd Llywodraeth Cymru am weld pwyllgor yn craffu ar y Bil hwn o gwbl i ddechrau.

Roeddem yn credu ei bod yn bwysig inni wneud y gwaith hwn er mwyn osgoi diffyg o ran gwaith craffu. Rydym yn credu inni lwyddo o ran y nod hwnnw, ond na ddylid ei ystyried yn gyfwerth â gwaith craffu Cyfnod 1 gan bwyllgor, ac yn sicr nid yn ddigon i gymryd ei le.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nod Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil i gefnogi ei hachos mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU yn y Goruchaf Lys. Dyna pam y mae am i'r Bil fynd drwy'r Senedd yn gyflym. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi hyn yn gyffredinol yn ystod ein gwaith craffu. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu ei hachos yn y Goruchaf Lys dros sicrhau gwaith craffu digonol ar y Bil yn y Senedd.

## 2. Cefndir polisi a deddfwriaethol

**8.** Mae'r Bil yn cynnig gwahardd neu gyfyngu ar y cyflenwad o sawl cynnyrch plastig untro yng Nghymru i ddefnyddwyr. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

*"Bydd y Bil yn cefnogi gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Bydd hefyd yn cyfrannu at ein huchelgeisiau tymor hir i waredu yn raddol ar gynhyrchion untro, yn enwedig plastig, a pheidio ag anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi. Er ein bod yn cydnabod bod rhai cynhyrchion plastig untro yn hanfodol, fel y rhai a ddefnyddir mewn lleoliadau meddygol, hoffem gyflymu'r newid i ddefnyddio rhagor o gynhyrchion mwy cynaliadwy y gellir eu hailddefnyddio. Pan fydd angen defnyddio cynhyrchion untro, dylid eu dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd cymaint ag y bo modd."*

**9.** Nod y Bil yw ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) gynhyrchion plastig untro tafladwy, sef yr eitemau "diangen ac sy'n cael eu taflu'n aml fel sbwriel", i ddefnyddiwr yng Nghymru. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu cynnyrch plastig untro at y rhestr o gynhyrchion, neu ddileu un ohoni, sy'n ddarostyngedig i'r drosedd cyflenwi (neu gynnig cyflenwi).

### Polisi Llywodraeth Cymru

**10.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth economi gylchol, sef Mwy nag Ailgylchu. Mae'n ailddatgan yr ymrwymiad i Gymru fod yn "ddiwastraff" erbyn 2050, sy'n golygu bod yr holl wastraff a gynhyrchir yn cael ei aildefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb ei dirlenwi nac adfer ynni. O ran plastigau untro, dywed y strategaeth:

*"Byddwn yn rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig. Byddwn ni ddim yn anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi ac yn lleihau'r swm sy'n cael ei anfon i adfer ynni yn raddol. Byddwn yn cyflawni hyn gyda diwygiadau arloesol fel Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer pecynnu, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a thrwy osod gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar eitemau untro diangen."*

## Dulliau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU

### Lloegr

---

**11.** Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Hydref 2018 ar gynigion i wahardd dosbarthu a/neu werthu gwellt plastig, ffyn cotwm â choesyntau plastig a throwyr diodydd plastig yn Lloegr, cyflwynodd Llywodraeth y DU Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt Plastig, Ffyn Cotwm a Throwyr) (Lloegr) 2020, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2020.

**12.** Ym mis Tachwedd 2021, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gynigion i gyflwyno gwaharddiadau ar gyfer cyllyll a ffyrc untro, platiau, ffyn balŵn, cwpanau polystyren ehangedig ac allwthiol, cynwysyddion diod a chynwysyddion bwyd. Lanswyd galwad am dystiolaeth hefyd ar leihau'r defnydd o gynhyrchion untro eraill, gan gynnwys weips gwlyb, hidlyddion tybaco, bagiau bach a chwpanau untro.

### Yr Alban

---

**13.** Ym mis Hydref 2019, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Ffyn Cotwm) (Yr Alban) 2019 i wahardd gwerthu a gweithgynhyrchu ffyn cotwm untro yn yr Alban.

**14.** Yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion i wahardd gwerthu a gweithgynhyrchu gwellt untro, throwyr, platiau, cyllyll a ffyrc, a chynwysyddion bwyd a diod polystyren ehangedig, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Yr Alban) 2021, a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2022.

### Gogledd Iwerddon

---

**15.** Ddiwedd 2022, lansiodd yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ymgynghoriad ar leihau cwpanau diod a chynwysyddion bwyd untro.

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

**16.** Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad ar wahardd naw eitem blastig untro. Roedd yr eitemau arfaethedig yn cyd-fynd â'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 5 o Gyfarwyddeb (UE) 2019/904, sef Cyfarwyddeb Plastigau Untro yr UE.

**17.** Mae'r cynigion yn y Bil i wahardd eitemau penodol yn cynnwys dwy eitem nad oedd yn destun ymgynghoriad – caeadau polystyren a bagiau siopa plastig untro. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y newidiadau hyn wedi'u rhannu â rhanddeiliaid a grwpiau perthnasol. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn credu ei bod yn fwy priodol ac effeithlon mabwysiadu'r dull hwn, yn hytrach na chyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghoriad llawn.

**18.** Roedd y cyfranwyr at waith y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynigion. Fodd bynnag, dywedodd Megan Thomas (Anabledd Cymru) fod datblygu'r cynigion, yn benodol mewn perthynas â gwahardd gwellt am resymau meddygol, wedi dod â phroblemau i'r amlwg gyda o ran gwrando ar leisiau'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt fwyaf, a chynnwys y lleisiau hyn.

### 3. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a fabwysiadwyd

**19.** Roedd cefnogaeth helaeth ymhlith y cyfranwyr i fwriadau'r Bil, ond rhybuddiodd llawer na fyddai'r ddeddfwriaeth ar ei phen ei hun yn lleihau lefelau sbwriel neu lygredd plastig presennol.

#### **Un o gyfres o bolisiau**

---

**20.** Eglurodd Craig Mitchell (CLILC) fod y cynnig yn un rhan o gyfres o ymyriadau disgwylidig yn y maes polisi hwn dros y blynyddoedd i ddod, gan egluro:

*"we've got the plastics tax, we've got extended producer responsibility and deposit-return schemes. Also in Wales, next year, we've got the non-domestic regulations, which will make a significant change for businesses and the public sector in terms of how commercial waste is collected. We've got initiatives in Wales around plastic film...And we also have the emissions trading scheme, a possible extension towards energy from waste. So, I mention all of these because they do all have an impact upon the behaviours of businesses, of the public sector, of the waste industry, and also in terms of people's behaviour change. So, understanding the full range of those different interventions I think is quite important in terms of understanding the proposition here and how that sits."*

**21.** Dadleuodd y Foodservice Packaging Association, AVA, Benders Paper Cups a Seda na fydd y Bil yn cyfrannu fawr ddim at y bwriad polisi o leihau sbwriel:

*"Those who litter will not change their behaviour because of a change in material. The Bill would simply replace one type of litter with another."*

#### **Beth yw'r risgiau sy'n deillio o'r gwaharddiad?**

---

**22.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mai un o ganlyniadau anfwriadol posibl y Bil yw bod "mwy o eitemau nad ydynt yn rhai plastig yn cael eu defnyddio yn lle hynny a bod problemau sbwriel yn parhau", ac roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn rhannu'r pryder hwn. Teimlai CLILC fod risg y gallai manwerthwyr amnewid cynhyrchion plastig untro am gynhyrchion eraill a allai fod yr un mor niweidiol neu'n fwy niweidiol i'r amgylchedd ond nad ydynt yn dod o dan y gwaharddiad. Fe wnaeth Dr Richard Cadell (Canolfan Llywodraethiant Cymru) godi hyn gyda'r Pwyllgor, gan esbonio:



*"if you get given a more robust container to take your burger home at the end of the day from your festival or anything else, that stuff still gets tossed away, and all you have is a more resilient plastic causing the problem, it's just not single-use, and I think you then shift that problem. So, I think there's a case for saying that consumers are part of this; the end users of this plastic really are a big part of this, and that's not necessarily writ large within the plastics Bill at the moment."*

## **Cyrchu cynhyrchion amgen**

---

**23.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ben Maizey (y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff) wrth y Pwyllgor yr hoffai weld Llywodraeth Cymru yn awgrymu cynhyrchion derbyniol amgen:

*"What we would like to see is, with the banning of such products, there are alternative solutions that can be recommended and suggested for people to use, and businesses, of course, supported in that, so that they can find these at a cost that will not impact their business, but the consumer as well."*

**24.** Pan ofynnwyd iddo a ddylai gwybodaeth o'r fath gael ei chynnwys ar wyneb y Bil, dywedodd Dr Richard Cadell fod risg o fod yn rhy ragnodol oherwydd y byddai creu rhestr dderbyniol o ddewisiadau amgen derbyniol yn golygu y bydd unrhyw beth nad yw ar y rhestr honno wedyn yn cael ei ystyried yn annerbyniol. Awgrymodd y gellid cyfeirio at gynhyrchion amgen derbyniol mewn dogfennau sy'n cefnogi deddfwriaeth, fel Memoranda Esboniadol.

**25.** Tynnodd CLILC sylw at y broblem bosibl o ddeunyddiau amgen i blastig untro yn cael eu gwaredu yn anfwriadol ond yn anghywir mewn gwastraff bwyd, gan greu problemau mewn peiriannau treulio anaerobig, a pheryglu eu hallbwn. Yn yr un modd, rhybuddiodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru am yr effaith ganlyniadol y gall deunyddiau amgen ei chael ar y sector adnoddau a gwastraff mewn perthynas ag ailgylchu neu drin gwastraff.

## **Yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd**

---

**26.** Nododd Dr Richard Caddell nad oes ymrwymiad yn y Bil drafft i godi ymwybyddiaeth nac i ddarparu addysg ehangach. Rhybuddiodd GAMA Healthcare:

*"...any ban will only be successful if accompanied by concerted efforts at public education to drive behaviour change and ensure products are appropriately disposed of."*

## Goblygiadau ariannol

- 27.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi crynodeb o'r costau a'r manteision sy'n deillio o'r Bil. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil hyd at 2029-30 yw £18.9m.
- 28.** Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau gweinyddol o £1.5m. Amcangyfrifir y bydd y costau gweithredu cychwynnol yn cyrraedd £500,000, sy'n cynnwys datblygu canllawiau dwyieithog, cyfathrebu i gefnogi cyflwyno'r Bil a chostau staff sy'n gysylltiedig â'i weithredu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhagweld costau cylchol o £100,000 dros ddeng mlynedd ar gyfer staff sy'n rheoli'r gwaith o weithredu'r Bil a datblygu polisi yn y dyfodol.
- 29.** Mae costau cydymffurfio yn debygol o gyrraedd £17.1m. Bydd costau o £16.8m dros y cyfnod arfarnu, wedi'u rhannu rhwng busnesau a defnyddwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth pris rhwng eitemau plastig untro a dewisiadau amgen nad ydynt yn rhai plastig. Bydd busnesau yn ysgwyddo cost o £300,000 i hyfforddi staff, newid cyflenwyr a sicrhau cydymffurfiaeth. Disgwylir y bydd costau eraill, yr amcangyfrifir y byddant yn cyrraedd £300,000, yn ymwneud â thrin gwastraff cynhyrchion.
- 30.** Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys cost gweithredu rheoleiddiol untro dybiedig o £100,000 i gyflwyno'r gwaharddiad a chost barhaus flynyddol bellach o £100,000 o ail flwyddyn y gwaharddiad sy'n ymwneud â rheoli a gorfodi.
- 31.** Mae'r prif gostau ac anfanteision heb eu meintioli yn ymwneud â gweithgynhyrchwyr a busnesau eraill, o ran troi cynhyrchu oddi wrth eitemau plastig – mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod hyn oherwydd diffyg data am nifer y gweithgynhyrchwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai bod busnesau eisoes wedi ysgwyddo'r costau hyn oherwydd galw yn y farchnad mewn rhannau eraill o'r DU a ledled yr UE.
- 32.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan mai £12m fyddai "gwerth presennol net" y manteision sy'n deillio o'r Bil hyd at 2029-30, gan gynnwys cost a budd o £8.6m o refferniw gweithgynhyrchu os bydd y sector yn newid i fod yn ddi-blastig.

## Talu costau'r gwaharddiad

---

- 33.** Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor hwn ar y Bil drafft, ni fydd rhanddeiliaid wedi cael cyfle i weld y Memorandwm Esboniadol na'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Felly, nid oedd y cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar yn ymateb i'r wybodaeth ariannol sydd yn y dogfennau hynny.
- 34.** Tynnodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach, y Foodservice Packaging Association, AVA, Benders Paper Cups a Seda sylw at yr hinsawdd economaidd

bresennol a'r effaith bosibl ar fusnesau. Awgrymodd AVA y byddai'n rhaid trosglwyddo costau ychwanegol i ddefnyddwyr, a dywedodd:

*"The bans on some items will have a negative financial impact for foodservice and vending companies. For example, while there are suitable alternatives to cups made from expanded polystyrene, preliminary costings suggest replacement lids would be significantly more expensive."*

**35.** Tynnodd Cyngor Dinas Casnewydd sylw at bwysau anfwriadol posibl ar sefydliadau i gaffael cynhyrchion amgen a allai fod am gost fwy, ac felly y gallai fod angen trosglwyddo'r gost hon i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, dywedodd Cadwch Gymru'n Daclus na ddylid disgwyl i'r defnyddiwr ysgwyddo'r costau, gan ei fod eisoes yn gwneud hynny ar gyfer cael gwared ar lygredd drwy drethi cyngor a/neu filiau dŵr. Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus ill dau y dylai'r egwyddor 'Y Llygrwr sy'n Talu' fod yn fwy amlwg yn y Bil.

### **Cyfnod gras?**

---

**36.** Galwodd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y Sefydliad Materion Cymreig, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru a'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra, am eglurder ynghylch stoc dros ben, ac ynghylch amser paratoi neu gyfnod gras ar gyfer cychwyn y darpariaethau yn y Bil drafft. Rhybuddiodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra:

*"Failure to provide sufficient lead time could result in rushed switches to alternative materials that may have an equally detrimental impact on the environment."*

**37.** Roedd David Chapman o UK Hospitality Cymru yn cytuno ar y mater o stoc dros ben, ac ychwanegodd:

*"where there will be the opportunity to not have to waste bags or whatever it would be, in order to meet a deadline [of the introduction of a ban], that there is some sort of sensible recognition of the ability to be able to use those bags properly."*

**38.** Mewn perthynas â threfniadau trosiannol, dywedodd Natalia Lewis-Maselino o Ffederasiwn Plastigau Prydain y byddai angen amser ar fusnesau i newid, amser i symud draw, amser i fuddsoddi mewn peiriannau newydd a rhaglenni newydd ac ati. Dywedodd y byddai ymgynghori â busnesau ymlaen llaw o fuddiol iddynt yn hynny o beth.

**39.** Dywedodd Brett John o'r Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor, o ran y dyddiad gorfodi, yr hyn a welwyd yn yr Alban a Lloegr o ran y ddeddfwriaeth sydd wedi'i phasio yno yw bod hyn wedi bod o leiaf hanner blwyddyn. Roedd yn disgwyl trefniadau tebyg yng Nghymru.

### **Codi ymwybyddiaeth manwerthwyr, cyflenwyr ac awdurdodau lleol**

---

**40.** Nododd CNC y byddai angen cyngor a chanllawiau clir i weithgynhyrchwyr, busnesau a rheoleiddwyr er mwyn y canlynol:

*"...helpu busnesau i gydymffurfio... ac yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i reoleiddio'r gofynion hyn yng Nghymru."*

**41.** Rhybuddiodd y Ffederasiwn Busnesau Bach a Benders Paper Cups y bydd ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad ymhlith manwerthwyr yn dibynnu ar gyhoedduswydd Llywodraeth Cymru. Gan gyfeirio at ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr, dywedodd Matt Davies (Ffederasiwn Plastigau Prydain) wrth y Pwyllgor nad yw'n rhywbeth y mae trafodaethau manwl wedi digwydd yn ei gylch â Llywodraeth Cymru. Ond dywedodd y byddai'n croesawu'r cyfle i'w drafod.

**42.** Galwodd CLILC am "ymgyrch gadarn i godi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chymorth gyda chymau gorfodi". Dywedodd Judith Parry (CLILC) wrth y Pwyllgor:

*"The run-up to the introduction of any legislation is key. We've had really good support from the Welsh Government and WLGA previously in respect of guidance going out, social media messaging and campaigns, and that very much does help."*

**43.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar y broses o godi ymwybyddiaeth a sicrhau cyhoedduswydd. Dywedodd Judith Parry (CLILC) fod llawer o awdurdodau lleol wedi torri cyngor ac arweiniad i fusnesau tua 2015 oherwydd costau.

### **Goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU**

**44.** Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ('y Ddeddf') yn pennu 'egwyddorion mynediad i'r farchnad', sy'n rhagdybio y dylai fod modd i nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol (yn gyffredinol) y gellir eu gwerthu neu eu cydnabod mewn un rhan o'r DU gael eu gwerthu neu eu cydnabod mewn unrhyw ran arall o'r DU, ni waeth beth y mae'r gyfraith yn y rhan honno o'r DU yn ei ddweud.

**45.** Mae adrannau 10 a 18 o'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau i greu gwaharddiadau o'r egwyddorion. Yn dilyn cais gan Lywodraeth yr Alban, ym mis Ionawr 2022

cadarnhawyd y bydd Llywodraeth y DU yn gwahardd y cynhyrchion sy'n dod o dan waharddiad Llywodraeth yr Alban.

**46.** Mae Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (Gwaharddiadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022 yn dileu'r cyfyngiad y byddai'r Ddeddf yn ei gael ar restr benodol o blastigau untro. Fodd bynnag, mae Bil Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynhyrchion neu eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr hon, sef bagiau siopa (gyda rhai eithriadau) a'r holl gynhyrchion sydd wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddiadwy. Ni fyddai'r gwaharddiad o'r Ddeddf yn berthnasol i'r ddau gyfyngiad.

### **Effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfraith amgylcheddol**

---

**47.** Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig fod y Ddeddf yn debygol o gael effaith sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith effeithiol ac mai effaith ymarferol y Ddeddf yw sicrhau bod rheolau marchnad Lloegr yn cael eu cymhwyso i Gymru. O ran y Ddeddf, dywedodd Dr Richard Caddell:

*"... places a clear ceiling on Welsh environmental law and attempts to address a problematic product or substance must inevitably proceed at the speed of the slowest legislative authority – or deploy the difficult and time-consuming process to gain an exemption under the Act itself. This has implications far beyond the specific issue of single-use plastic."*

**48.** Dywedodd Brett John o'r Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor ei fod yn pryderu y byddai anghydfodau sy'n deillio o'r Ddeddf yn arwain at ansicrwydd:

*"I think any suggestions that proposals are progressed and business is expected to make significant changes to its supply chains through investments of time and funds only for that to be flipped on its head at some point are concerning, but it is reassuring, through the Scottish example, that an exemption was permitted in that case and the narrative from UK Government has been fairly positive on this issue in particular."*

### **Adolygiad ar ôl gweithredu**

**49.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r Bil ar ôl gweithredu erbyn pum mlynedd ar ôl iddo ddod i rym fan bellaf. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y polisi o ran cyflawni ei amcanion, sef:

- Cefnogi gweithredoedd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur;

- Lleihau sbwriel cynhyrchion plastig untro;
- Y defnydd gwastraffus o adnoddau;
- Addasu ymddygiad defnyddwyr i ddefnyddio opsiynau eraill mwy cynaliadwy.

**50.** Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at yr angen i fonitro effaith y ddeddfwriaeth, yn enwedig i asesu effaith canlyniadau anfwriadol.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**51.** O ran y posibilrwydd o gyflwyno cyfnod gras, dywedodd y Gweinidog:

*"we're not intending to give a grace period for businesses because we've engaged extensively, and, seriously, who doesn't know that we're planning to do this? There will be a six-month standstill period to support a transition across, though, but we are recommending loudly all groups affected take appropriate steps now, because we anticipate that the Bill will have support right through the Senedd process, and that it will be the law shortly."*

**52.** Eglurodd y Gweinidog y byddai'r Bil, pe bai'n cael ei basio, yn ymgysylltu a chytuniad Sefydliad Masnach y Byd ar rwystrau technegol i fasnach, a bod hynny'n gofyn am gyfnod segur o chwe mis yn dilyn pasio'r Bil a'r Cydsyniad Brenhinol.

**53.** Wrth gyfeirio at y mater o stoc dros ben, dywedodd y Gweinidog:

*"we want to just encourage businesses to think about changing their supply chains, use up existing stocks of the single-use products included in the Bill to avoid enforcement action and swap their purchasing policies as fast as possible. We've seen—I'm sure the committee has heard evidence of this—that that's happening. Already, the most commonly littered products when we started this consultation are no longer the most commonly littered products, because, actually, they're already going out of the market. So, the behaviour change is happening."*

**54.** Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan randdeiliaid ynghylch yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflenwyr a manwerthwyr, dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfnod segur o chwe mis i barhau i weithio gyda gweithgynhyrchwyr busnes, yr holl grwpiau sector cyhoeddus a chymunedau, a grwpiau nodweddion gwarchoddedig i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i gefnogi'r Bil. Eglurodd y byddai'r canllawiau'n egluro beth y mae'n credu yw'r dehongliad cywir, yr hyn y mae'n tybio

sy'n cael ei gwmpasu, a'r ffordd y mae'n meddwl y dylai gael ei ddehongli gan safonau masnach lleol, a hynny i helpu busnesau i addasu i'r Bil.

**55.** Gan gyfeirio at gynhyrchion amgen derbyniol, dywedodd y Gweinidog:

*"We've looked at a lot at alternatives, so compostable paper straws, carbon balloon sticks, paper plates, wooden cutlery, bamboo cotton buds: all of those have been widely available in the market for a very, very long time. There are lots of other alternatives on the market as well, so the transition is a wise option for lots of businesses, and actually, loads of businesses already don't sell single-use products, and you'll particularly notice that the plastic straws have largely disappeared, and people have replaced them with the paper ones."*

**56.** O ran y posibilrwydd o ddisodli plastigau untro â chynhyrchion sydd yr un mor niweidiol neu'n fwy niweidiol i'r amgylchedd, dywedodd y Gweinidog:

*"what we'd be looking to do is make sure that, as we substitute plastic with bamboo, for example, we are not encouraging the wholesale destruction of a native rainforest for a bamboo plantation. But there are lots and lots of sustainable sources for bamboo. We'll be making sure that we encourage Welsh manufacturers to use certified sources for those bamboos."*

**57.** Mewn perthynas ag effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU, esboniodd y Gweinidog:

*"So, the arguments that were set out, which I'm sure the committee's familiar with, are that the Act can't cut across the devolution settlement by the back door, by stealth, if you like. It's a constitutional statute and it cannot be impliedly repealed. This is an argument that's going to occur with other forthcoming legislation going through as well. That remains our position, so the Senedd's competence to legislate on devolved matters is not, in our view, limited by the UKIMA Act, and therefore it does not impact on this Bill. We wait to see what view the UK takes of that. But I think we're right to be robust in saying, 'This is the devolution settlement. We are entitled to enact the will of the people of Wales in Wales,' and the will of the people of Wales is quite clearly that they want this stuff banned."*

## Ein barn ni

Fel y dywedodd llawer o'n rhanddeiliaid wrthym, dim ond **un rhan o'r jig-so** o ymyriadau yn y maes polisi hwn yw'r Bil hwn. Rydym yn disgwyl newidiadau pellach dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cytuno na fydd y Bil hwn ar ei ben ei hun yn effeithio ar y lefelau difrifol o lygredd a sbwriel plastig a welwn ym mhobman o'n cwmpas, ond mae'n fan cychwyn ac, er yn hwyr, yn gam angenrheidiol i'r cyfeiriad cywir.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rhai y mae ymyriadau ar lefel Cymru yn effeithio arnynt yn deall yr ymyriadau hyn yn glir. Rydym yn deall pryderon busnesau, sydd angen sicrwydd y bydd y polisiau amrywiol yn cael eu halinio ac na fydd y buddsoddiadau y maent yn eu gwneud i addasu cynhyrchiant heddiw yn troi'n wastraff buddsoddiad flwyddyn yn ddiweddarach. Rydym yn credu y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro beth yw ei chynlluniau tymor hwy yn y maes hwn. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, maes o law, gyhoeddi strategaeth ar gyfer lleihau llygredd plastig yng Nghymru, a fydd yn dod â'r polisiau amrywiol hyn ynghyd mewn un lle.

Mae'r Gweinidog wedi rhoi sawl ymrwymiad y bydd materion amrywiol sy'n codi o'r Bil yn cael sylw yn y **canllawiau**. Er mwyn rhoi eglurder i randdeiliaid, busnesau, ac awdurdodau lleol, rydym yn credu y dylai'r rhain gael eu nodi ar wyneb y Bil.

Rydym yn cytuno â'r sylwadau gan randdeiliaid am yr angen i **godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd**. Rydym yn croesawu'r ymrwymadau gan y Gweinidog ar hyn, ond mae angen rhaglen barhaus o addysg a chyhoeddusrwydd ynghylch yr egwyddorion sy'n sail i'r gwaharddiad a'r polisiau eraill sydd ar y gweill yn y maes hwn. Fel arall, mae perygl y byddwn yn gweld lefelau uchel parhaus o sbwriel, ond o ddeunydd gwahanol.

Rydym yn cytuno mai un o'r **risgiau sy'n deillio o'r gwaharddiad** yw y gallai plastigau untro gael eu disodli gan gynhyrchion eraill sy'n niweidiol i'r amgylchedd. Mae angen mynd i'r afael â hyn drwy gyfathrebu â chyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cynhyrchion niweidiol hyn yng nghyd-destun y gyfres ehangach o ymyriadau yn y maes polisi hwn. Mae angen iddi weithredu os bydd gofyn am hynny.

Mae gwybodaeth ynghylch **dewisiadau amgen derbyniol** yn synhwyrol fel ffordd o liniaru'r effaith hon a byddai'n ddefnyddiol i gyflenwyr a manwerthwyr. Rydym yn cytuno na ddylai hyn fod ar wyneb y Bil ac y dylai'r canllawiau fynd i'r afael â hyn. Bydd angen mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r rhestr o gynhyrchion amgen derbyniol, a hynny i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r rhestr o eitemau sydd wedi'u gwahardd a'r esemptiadau.



Rydym yn nodi bod nifer o randdeiliaid wedi gofyn am **gyfnod gras**. Dywedodd rhai y byddai hyn yn rhoi cyfle i gyflenwyr ddefnyddio '**stoc dros ben**'. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd cyfnod segur o 6 mis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol i fodloni gofynion Sefydliad Masnach y Byd. Yna bydd angen i'r Gweinidog gyflwyno rheoliadau i gychwyn y darpariaethau yn y Bil sy'n gwahardd yr eitemau a restrir. Rydym yn fodlon y byddai hwn yn gyfnod pontio digonol mewn egwyddor, ond rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog ei bod yn hyderus y bydd hyn yn rhoi digon o amser i **godu ymwybyddiaeth gyda chyflenwyr ac awdurdodau lleol**. Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud na fydd y gwaharddiad yn syndod i gyflenwyr, ond bydd yn effeithio ar nifer sylweddol o fusnesau manwerthu a lletygarwch, a llawer ohonynt yn fusnesau bach. Bydd codi ymwybyddiaeth yn eu plith o'r gwaharddiad yn her. Bydd hefyd angen i lawer o gyflenwyr ddod o hyd i gynhyrchion amgen sy'n briodol i'w busnes, a byddem yn ddiolchgar am esboniad gan y Gweinidog o unrhyw asesiad y mae hi wedi'i wneud o argaeledd cynhyrchion amgen yn y tymor byr. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar am ei hasesiad ynghylch a oes cyflenwad digonol o gynhyrchion amgen i allu ymdrin â chynnydd sydyn yn y galw amdanynt o ganlyniad i'r gwaharddiad. Byddem yn bryderus, er enghraifft, pe na allai busnesau weithredu oherwydd diffyg cynhyrchion amgen neu oherwydd bod cost cynhyrchion amgen yn afresymol o ddrudd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu y bydd **adolygiad ar ôl gweithredu** o'r ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal erbyn pum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym fan bellaf. Rydym yn croesawu hyn. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol na all ymrwymadau y mae'n eu gwneud rwympo Llywodraeth olynol ac felly byddai'n well gennym pe bai'r Gweinidog yn ymrwmpo y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod tymor y Senedd hon. Os na all hi wneud hynny, credwn y dylid cynnwys y gofyniad am adolygiad ar ôl gweithredu ar wyneb y Bil, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei gynnal gan Lywodraeth yn y dyfodol.

Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog am **Ddeddf Marchnad Fewnol y DU**. Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan lawer o'n rhanddeiliaid mewn perthynas ag effaith Deddf y Farchnad Fewnol. Rydym yn cytuno y gallai ychwanegu haenau o fiwrocratiaeth ddiangen wrth geisio deddfu mewn perthynas â'r amgylchedd, ac mae perygl y bydd yn creu sefyllfa lle y mae polisiau blaengar yn cael eu ffrwyno gan y wlad â'r uchelgeisiau isaf. Ni all fod yn iawn bod pobl a busnesau yng Nghymru yn cael eu hatal rhag gweld y newidiadau y maent yn teimlo eu bod yn angenrheidiol rhag ofn rhoi busnesau mewn mannau eraill dan anfantais. Beth bynnag yw penderfyniad y Goruchaf Lys ar yr achos hwn, mae'n siŵr nad yw hyn yn gynaliadwy.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth sy'n nodi'r gyfres o fentrau y mae'n bwriadu eu cyflwyno i leihau llygredd plastig. Bydd hyn yn rhoi eglurder i randdeiliaid a sicrwydd i fusnesau a fydd angen cynllunio buddsoddiad mewn cynhyrchion amgen.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ar wyneb y Bil y darnau amrywiol o ganllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, naill ai o ganlyniad i ymrwymiadau a roddwyd gan y Gweinidog neu o ganlyniad i argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog ddatblygu rhaglen barhaus o addysg a chyhoedduswydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am yr egwyddorion sy'n sail i'r Bil a'r angen i leihau llygredd plastig.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog sicrhau bod ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyflenwyr, a manwerthwyr hefyd yn mynd i'r afael â'r risg o gynhyrchion amgen nad ydynt wedi'u gwahardd ond sy'n niweidiol i'r amgylchedd er hynny.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno canllawiau ar ddewisiadau amgen derbynol i'r eitemau plastig untro sy'n cael eu gwahardd. Dylai'r Gweinidog ymrwmo i fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r rhestr.

**Argymhelliad 6.** O ystyried bod y Gweinidog wedi dweud mai ei bwriad yw y dylai'r gwaharddiad ddod i rym cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfnod segur o 6 mis, dylai'r Gweinidog egluro'n ysgrifenedig y camau sydd ar waith i helpu busnesau, cyflenwyr ac awdurdodau lleol i baratoi.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog roi'r diweddaraf i'r Senedd am unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud o faint o gynhyrchion amgen sydd ar gael yn y tymor byr.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y caiff yr adolygiad ar ôl gweithredu ei gynnal yn ystod tymor y Senedd hon. Os na all hi wneud hynny, rydym yn credu y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad am adolygiad ar ôl gweithredu ar wyneb y Bil, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei gynnal gan Lywodraeth nesaf Cymru.

## 4. Y rhestr o eitemau sy'n cael eu gwahardd

### Gwaharddiad ar gyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol

#### Adran 1 - Diffiniadau

---

**58.** Mae Adran 1 yn diffinio'r cysyniadau allweddol a ganlyn: "untro", "cynnyrch plastig", a "plastig". Ystyr "cynnyrch plastig" yw cynnyrch y gwneir ei holl brif gydrannau strwythurol, neu unrhyw un neu ragor o'r prif gydrannau hynny, yn gyfan gwbl neu'n rhannol o blastig, neu sydd â leinin neu araen a wneir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o blastig.

**59.** Ystyr "untro", mewn perthynas â chynnyrch plastig, yw cynnyrch nad yw wedi ei ddylunio neu ei weithgynhyrchu i'w ddefnyddio at y diben y'i dyluniwyd neu y'i gweithgynhyrchwyd ar ei gyfer fwy nag unwaith (neu ar fwy nag un achlysur) cyn ei waredu. Mae'r adran hon hefyd yn egluro mai dim ond bagiau siopa wedi'u gwneud o ffilm blastig heb fod yn fwy na 49 micron o drwch sy'n cael eu hystyried yn fagiau siopa untro at ddiben y Bil.

**60.** Ystyr "plastig" yw deunydd ar ffurf polymer, ac mae'n cynnwys deunydd ar ffurf polymer sydd wedi ei gymysgu ag ychwanegion neu sydd â sylweddau eraill wedi eu hychwanegu ato.

#### Yr angen am ddiffiniadau wedi'u halinio

**61.** Fe wnaeth nifer fawr o ymatebwyr dynnu sylw at yr angen am ddiffiniadau cyson. Roedd y mwyafrif ohonynt yn awgrymu defnyddio disgrifiadau sy'n cyd-fynd â'r rhai sydd i'w gweld yng Nghyfarwydddeb Plastig Untro yr UE a'r canllawiau gweithredu. <sup>1</sup>Fodd bynnag, awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid defnyddio diffiniad o'r term 'plastig' sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau ar y Dreth Pecynnau Plastig.

**62.** Dywedodd Brett John (y Ffederasiwn Busnesau Bach) wrth y Pwyllgor y byddai'n ffafrio cysondeb yn y diffiniadau a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei gweithredu ledled y DU. Roedd Matt Davies, Ffederasiwn Plastigau Prydain, yn cytuno, gan ddweud:

*"We obviously represent companies that operate across the devolved nations, so as long as there's regulatory alignment in the definitions, then that suffices."*

---

<sup>1</sup> Diffiniad yr UE o 'cynnyrch plastig untro' yw cynnyrch sydd wedi'i wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol o blastig ac na chafodd ei ddyfeisio, ei lunio na'i roi ar y farchnad at ddibenion cyflawni, o fewn ei oes, dripiâu neu gylchdroadau lluosog drwy gael ei ddychwelyd i gynhyrchydd ar gyfer eil ail-lenwi neu ei aildefnyddio at yr un diben ag y cafodd ei ddyfeisio.

**63.** Nododd sawl un o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, fod angen rhagor o eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan eitem 'untro'. Mynegodd Dr Richard Caddell, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus bryderon y gallai'r diffiniad o 'untro' ganiatáu cyflenwad o gynhyrchion 'aml-becyn' neu gynhyrchion 'ar gyfer y teulu cyfan' sy'n cynnwys nifer o eitemau wedi'u pecynnu'n unigol fel rhan o nwydd unigol.

**64.** Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus y dylid diwygio'r diffiniad i gynnwys y gair 'dyfeisio' ('conceived') yn unol â diffiniad yr UE o gynnyrch plastig untro, a fyddai'n cau bylchau megis caniatáu i gynhyrchwyr ail-labelu cynhyrchion untro gyda chyfarwyddiadau i'r defnyddiwr eu golchi a'u haildefnyddio. Roedd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn rhannu'r pryder hwn. Awgrymodd Dr Richard Cadell y codwyd y defnydd o'r gair 'dyfeisio' adeg pasio cyfarwyddeb yr UE a'i fod yn cael ei ystyried yn rhywbeth y gellid ei ddatrys drwy ganllawiau yn hytrach nag yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun.

### **Ocso-ddiraddiadwy ac ocso-bioddiraddiadwy**

**65.** Dywedodd Symphony Environmental Technologies Plc (Symphony) fod angen gwahaniaethu rhwng plastigau ocso-ddiraddiadwy ac ocso-fiioddiraddiadwy. Disgrifiodd y broses sydd ynghlwm wrth blastigau ocso-ddiraddiadwy fel a ganlyn:

*"... ordinary plastics, which degrade by oxidation under the influence of light and heat in the open environment and create microplastics, but do not become biodegradable except over a very long period of time."*

**66.** Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Matt Davies (Ffederasiwn Plastigau Prydain):

*"we're aware of bans in the European Union on oxos, we're aware that England are minded to introduce a separate consultation on it as well. So, it's something that we acknowledge as being included in here, and we understand the alignment with the European Union in terms of their single-use plastics directive."*

**67.** Tynnodd y Bio-based and Biodegradable Industries Association (BBIA) sylw at yr angen i ddiffinio 'ocs-ddiraddiadwy' yn glir i atal gweithgynhyrchwyr rhag ailenwi cynhyrchion er mwyn osgoi'r gwaharddiad. Roedd y Foodservice Packaging Association (FPA) yn rhannu'r pryder hwn.

**68.** Tynnodd yr FPA a'r BBIA sylw at ddiffiniad Awstralia o 'blastig ocso-ddiraddiadwy' – diffiniad yr oeddent yn ei arddel:

*"Oxo-degradable plastic means a material (however described) made of plastic which includes additives to accelerate the fragmentation of the*

*material into smaller pieces, triggered by ultraviolet radiation or heat exposure, whether or not this is, or may be, followed by partial or complete breakdown of the material by microbial action."*

**69.** Nododd y BBIA fod cynhyrchion oco-so-ddiraddiadwy yn honni eu bod yn 'oco-so-fiogdiraddiadwy' er mwyn osgoi gwaharddiadau o'r fath. Awgrymodd ddull tebyg i'r un a fabwysiedir yn yr Unol Daleithiau, lle y mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw blastig sy'n cael ei werthu ac sy'n destun honiadau ei fod yn fioogdiraddiadwy fod yn ddefnydd y gellir ei gompostio, yn unol â'r safonau perthnasol. Mae'r system honno felly yn gwahardd y defnydd o honiadau marchnata eraill.

**70.** Disgrifiodd Symphony y broses sydd ynghlwm wrth blastigau oco-so-fiogdiraddiadwy fel a ganlyn:

*"... by oxidation until its molecular weight is low enough to be accessible to bacteria and fungi, who then recycle it back into nature by cell-mediated phenomena. It does not leave microplastics."*

**71.** Dywedodd Symphony fod angen troi sylw at yr hyn sy'n digwydd i'r plastig os yw'n cael ei ryddhau i'r amgylchedd agored (gan nad oes modd atal hyn rhag digwydd yn y tymor byr na'r tymor canolig). Yn sgil hynny, nododd y byddai'r Bil drafft ar ei ffurf bresennol yn gwaethygu'r sefyllfa, gan y byddai plastigau oco-so-fiogdiraddiadwy hefyd yn cael eu gwahardd.

**72.** Daeth yr Oxo-Biodegradable Plastics Association i'r casgliad a ganlyn:

*"Oxo-biodegradable technology is the only way to reduce the accumulation in the environment of plastic waste which cannot realistically be collected. Far from seeking to ban it, the Welsh Government and Parliament should be making it mandatory for all short-life plastic products."*

**73.** Galwodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra am ganllawiau clir i helpu busnesau i ddeall y diffiniad o blastig oco-so-ddiraddiadwy, gan awgrymu bod angen diffiniad mwy helaeth na'r un sydd i'w weld yn y Bil drafft.

## **Adran 2 – Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig**

---

**74.** Mae adran 2 yn rhestru eitemau plastig untro gwaharddedig, gan gyfeirio at y tabl sydd i'w weld ym mharagraff 1 yn atodlen y Bil. Caiff cynnyrch ei wahardd os yw wedi'i restru yng ngholofn 1 o'r tabl ac nad yw wedi'i eithrio drwy gael ei gynnwys yng ngholofn 2.

## **A ddylid gwahardd cyflenwi a gweithgynhyrchu?**

**75.** Mynegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus bryder bod y Bil drafft, yn wahanol i'r rheoliadau cyfatebol yn yr Alban, yn gwahardd y broses o gyflenwi yn unig, yn hytrach na'r broses o gyflenwi a gweithgynhyrchu'r eitemau a restrir. Dywedodd Cadwch Gymru'n Daclus:

*"... it is important that as a 'globally responsible' nation, the legislation should prevent the manufacture and export of known pollutants to other countries."*

**76.** Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Craig Mitchell (CLILC):

*"I don't think it's appropriate that we're manufacturing these items and then exporting them around the world to cause harm elsewhere, but the concern was that there needs to be, perhaps, a transition and support for any manufacturers in Wales to allow them to move away from these products. Whether that's a specific time-limited sunset clause to be added to the Bill, or whether that's a separate process, that's a matter to be debated."*

**77.** Ar y mater hwn, dywedodd Matt Davies (Ffederasiwn Plastigau Prydain):

*"to ensure that there are the opportunities to supply these items where they may be needed in a professional capacity, I think it's important to ensure that manufacture can at least continue. Albeit, I'm aware that the manufacture of some of these items is probably quite limited within Wales."*

## **Pa eitemau ddylai gael eu gwahardd a pham?**

**78.** Tynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys yr FPA, Benders Paper Cups, a Seda, sylw at y ffaith nad yw llawer o'r cynhyrchion gwaharddedig yn y Bil drafft yn ymddangos mewn data ynghylch arolygon sbwriel, tra nad yw'r rhai sy'n ymddangos fwyaf wedi'u cynnwys. Codwyd y pwynt hwn hefyd gan Cadwch Gymru'n Daclus. Tynnwyd sylw at sbwriel sy'n gysylltiedig â sigarêts/e-sigarêts fel enghraifft o hyn.

**79.** Tynnodd yr FPA, yr AVA, Benders Paper Cups, a Seda sylw at nifer o effeithiau yn sgil gwahardd cynhyrchion. Roeddent yn cynnwys:

- y diffyg dewisiadau amgen addas i ddisodli caeadau polystyren ar gyfer diodydd poeth, a materion iechyd a diogelwch cysylltiedig;
- staff sy'n gweini yn gorfod 'penderfynu' a oes angen gwelltyn ar berson 'am resymau iechyd neu anabled';

- effaith ar allu gweithleoedd i ddarparu prydu poeth y tu allan i oriau.

**80.** Yn yr un modd, fe wnaeth Cyngor Sir Ddinbych fynegi pryderon am yr effaith ar wasanaethau arlwyo mewn ysgolion, yn enwedig o ran darparu cyllyll a ffyrç plastig.

**81.** Ni chafodd bagiau untro eu cynnwys yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2020, ond maent wedi'u cynnwys yn y Bil drafft (gydag esemptiadau). Croesawyd hyn gan Cadwch Gymru'n Daclus, a ddywedodd ei fod yn dangos bod Cymru yn arwain y ffordd yn y maes hwn yn y DU. Fodd bynnag, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o'r farn bod y darpariaethau yn gymhleth ac o bosibl yn ddryslyd i fusnesau.

### **A ddylai weips gwlyb â phlastigau ynddynt gael eu cynnwys?**

**82.** Mynegodd Dŵr Cymru a Cyswllt Amgylchedd Cymru siom ynghylch y ffaith nad yw weips gwlyb â phlastigau ynddynt wedi'u cynnwys yn y Bil drafft. Awgrymodd Cadwch Gymru'n Daclus y dylai weips gwlyb (a chynhyrchion mislif, y mae pobl yn aml yn cael gwared ohonynt mewn modd amhriodol) gael eu clustnodi ar gyfer gweithredu pellach o fewn tymor y Llywodraeth hon. Yn yr un modd, galwodd Hafren Dyfrdwy i blastig gael ei dynnu o bob weip untro a chynnyrch mislif.

**83.** Mynegodd y Co-op gefnogaeth lwyr i'r gwaharddiad ar weips gwlyb plastig confensiynol. Serch hynny, byddai'n annog esemptiad ar gyfer dewisiadau amgen sy'n ddi-blastig neu ddewisiadau y gellir eu compostio.

**84.** Dywedodd cwmni Kimberly-Clark, gwneuthurwr weips gwlyb, ei fod wedi buddsoddi tua £5 miliwn yn y broses o bontio tuag at gynhyrchu weips gwlyb hollol ddi-blastig. Dywedodd:

*"As a business, we are committed to selling only 100% plastic-free consumer wet wipes in the UK by 2025, and our intent is to produce them at our Flint site."*

**85.** Roedd y cwmni'n croesawu'r ffaith nad yw weips gwlyb â phlastig ynddynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, ac yn awgrymu y dylid canolbwyntio ar labelu a chael gwared ar gynhyrchion yn briodol, ni waeth beth fo'u cyfansoddiad, fel y brif ystyriaeth.

**86.** Dywedodd Ffederasiwn Plastigau Prydain, er bod dewisiadau amgen i weips gwlyb â phlastigau ynddynt yn bodoli, eu bod yn tueddu i fod yn gynhyrchion o fambŵ, y gellir eu compostio neu fiogdiraddiadwy sy'n debygol o achosi'r un problemau mewn carthffosydd os cânt eu gwaredu'n amhriodol fel eu taflu fel sbwriel neu eu fflysio i lawr y toiled.

**87.** Roedd GAMA Healthcare yn falch nad yw weips gwlyb wedi'u cynnwys yng nghwmpas y Bil drafft, gan nodi bod weips gwlyb proffesiynol yn rhan hanfodol o strategaethau effeithiol i atal heintiau.

## Esemptiadau

**88.** Roedd Jemma Bere (Cadwch Gymru'n Daclus) yn cydnabod bod angen esemptiadau i ymateb i amgylchiadau penodol, ond awgrymodd y byddai llai o esemptiadau yn gwneud y trefniadau'n llai cymhleth ac yn haws i'w hesbonio i gyflenwyr a defnyddwyr. Roedd Brett John o'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn cytuno.

**89.** Roedd y Co-op a BBIA ill dau yn nodi y byddai'r Bil drafft, ar ei ffurf bresennol, yn gwahardd gwerthu bagiau siopa y gellir eu compostio yng Nghymru. Roedd y ddau sefydliad yn awgrymu esemptiad ychwanegol ar gyfer bagiau siopa y gellir eu compostio ac sydd wedi'u hardystio i safon BS EN 13432. Eglurodd BBIA fod y safon hon yn cael ei defnyddio ar gyfer plastigau a ddiffinnir fel plastigau y gellir eu compostio drwy broses gompostio ddiwydiannol a phroses dreulio anaerobig.

**90.** Dywedodd Jemma Bere wrth y Pwyllgor:

*"One of the biggest problems there is that we don't have a legal definition as to what biodegradable and compostable is, so, at the moment, it would be very, very difficult to go down the route of specifying the items and the materiality without that definition in place. A lot of biodegradable and compostable items...are not designed for home composting. A lot of them are designed to biodegrade in quite hot conditions of 60 degrees centigrade and above—so, industrial composting or incineration."*

**91.** Roedd Fferylliaeth Gymunedol Cymru a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ill dwy'n cefnogi'r esemptiad ar gyfer bagiau siopa pan gânt eu cyflenwi yn unol â phresgripsiwn a roddir gan weithiwr iechyd proffesiynol, neu ar gyfer meddyginiaeth fferyllol (lle na chaiff ei chyflenwi yn unol â phresgripsiwn a roddir gan weithiwr iechyd proffesiynol). Yn ôl y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, er bod fferyllfeydd yn cael eu hannog i ddefnyddio bagiau papur neu ddewisiadau eraill mwy ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd, mae'r esemptiad dan sylw yn angenrheidiol o ran sicrhau diogelwch meddyginiaethau a chyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, dywedodd Cyfeillion y Ddaear Cymru nad oes angen yr esemptiad hwn ac y dylid ei ddileu, gan dynnu sylw at waith ymchwil y mae wedi'i wneud yn y maes hwn.



**92.** Dywedodd Megan Thomas (Anabledd Cymru) ei bod yn cytuno â'r esemptiadau ar gyfer gwellt plastig mewn amgylchiadau penodol gan fod modd eu defnyddio fel dyfais feddygol i lawer o bobl anabl allu bwyta ac yfed yn ddiogel. Eglurodd:

*"Disposable, bendy plastic straws in particular are very useful, as they have a number of properties that allow them to be safe for disabled people to be able to eat and drink. So, for example, they are very soft, so if you bite down on them, you're unlikely to injure yourself, you're unlikely to cut yourself on the edge. They can be moulded to a particular shape and, for hygienic purposes, the disposable nature of them is very useful for—people have difficulty with washing reusable straws. And they are also very cheap and relatively easily available."*

**93.** Aeth ymlaen i ddweud bod gan Anabledd Cymru rai pryderon bod yr esemptiad ar gyfer gwellt yn caniatáu iddynt gael eu darparu i berson os yw'r darparwr yn credu'n rhesymol bod eu hangen ar y person am resymau iechyd neu anabledd. Dywedodd na fyddai hyn yn ymarferol i bobl anabl â namau cudd ac na ddylai arwain at bobl anabl yn cael eu holi am eu cyflyrau neu deimlo eu bod o dan y chwyddwydr.

**94.** Ychwanegodd y dylid ystyried ymhellach a fyddai esemptiadau yn ddymunol ar gyfer eitemau plastig untro eraill a ddefnyddir mewn cyfleusterau meddygol neu ofal, er enghraifft cyllyll a ffyrc plastig, cyllyll a ffyrc tafladwy, a phlatiau tafladwy.

### **Adrannau 3 a 4 – Pŵer i ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion gwaharddedig**

**95.** Mae adran 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o blastigau untro gwaharddedig, a hynny drwy ychwanegu, dileu, neu ddiwygio cynnyrch yng ngholofn 1, esemptiad o golofn 2, neu ddiffiniad.

**96.** Mae adran 4 yn manylu ar y dyletswyddau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy ac adrodd mewn perthynas â'r pwerau i ddiwygio. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru, wrth benderfynu a ddylid gwneud y gwelliannau yn adran 3, ystyried eu dyletswydd i hybu a chyflawni datblygu cynaliadwy. Yn yr adroddiad, y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 79 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid iddynt egluro eu hystyriaeth ynghylch a ddylid arfer y pŵer yn adran 3.

### **A yw'r dull gweithredu yn briodol?**

**97.** Roedd Dŵr Cymru a Cyswllt Amgylchedd Cymru o'r farn y byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod Gweinidogion yn gallu ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, ac yn gallu gwneud newidiadau yn y dyfodol mewn modd effeithlon ac effeithiol. Roedd Sefydliad Siartredig Rheoli

---

Gwastraff Cymru yn rhagdybio y byddai unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, nododd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra, yr FPA, yr AVA, Benders Paper Cups a SEDA nad oes gofyniad i Weinidogion geisio cyngor nac i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth arfer y pŵer hwn:

*"Welsh Ministers should not be able to make subordinate legislation without the requirement of evidence or consultation with industry experts. To do so would have unintended consequences and may create confusion."*

**98.** Yn yr un modd, roedd Cyngor Sir Ddinbych o'r farn ei bod yn hanfodol bod ymgynghoriad digonol yn cael ei gynnal â rhanddeiliaid. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

*"...it is vital that these powers are scrutinised in their use, and that a role for the Senedd and stakeholders are made clear."*

**99.** Galwodd sawl rhanddeiliad am adolygiad rheolaidd o'r eitemau gwaharddedig a'r esemptiadau. Dywedodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol y byddai hyn yn sicrhau bod dewisiadau amgen sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf bob amser. Nododd Cadwch Gymru'n Daclus y byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion ymateb mewn da bryd i fygythiadau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.

**100.** Dywedodd Ffederasiwn Plastigau Prydain y dylai unrhyw newidiadau fod yn seiliedig ar Ddadansoddiad Cylch Oes llawn, gan nad yw newid i ddeunyddiau amgen bob amser yn arwain at y canlyniadau amgylcheddol gorau. Yn ogystal, tynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sylw at y canlynol:

*"Need to undertake an independent comprehensive life cycle analysis on the single use sector and assess the energy balance /logistics of product change."*

**101.** Dywedodd Megan Thomas (Anabledd Cymru) wrth y Pwyllgor:

*"the most important thing moving forward in terms of future exceptions is how the Welsh Government would be working with disabled people's organisations and disabled people directly to ensure that this isn't having an adverse impact. Something that we would like to see is specific commitments to working with those groups and to working with most affected groups on future exemptions."*

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**102.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y diffiniad o blastig yn y Bil yn cyd-fynd â chyfarwyddeb yr UE. Dywedodd:

*"it could be said that the wording of the directive, which is 'something wholly or partly made of plastic', is wider than the deliberately longer and more descriptive wording that we've used in the Bill...But, we don't think, in practice, in the real world, that there's much of a difference between the two."*

**103.** Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i helpu busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol i ddeall y diffiniadau cyfreithiol amrywiol yn y Bil. Dywedodd y byddai'r canllawiau a'r gwaith ymgysylltu cysylltiedig yn cael eu datblygu ar y cyd, ac y bydd yn ymgymryd â hyn cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym er mwyn cynnig eglurder i bawb.

**104.** O ran y mater na fyddai'r gwaharddiad yn ymdrin ag "aml-becyn" o blastigau untro, dywedodd y cynghorydd cyfreithiol a ddaeth gyda'r Gweinidog:

*"we think that if a court would accept that a single-use plastic fork is caught by the offence, it would be an odd interpretation to arrive at to say that a pack of 50 wouldn't be caught."*

**105.** Eglurodd, o dan adran 5(8) o'r Bil, lle y mae anghydfod gwirioneddol ynghylch a yw eitem yn gynnyrch plastig untro, fod darpariaeth ar gyfer hynny, a bod lle i'r diffynnydd godi tystiolaeth o hynny i'w wneud yn drosedd neillffordd.

**106.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y gellid disgwyl i awdurdod lleol wybod a oedd cynnyrch plastig wedi'i weithgynhyrchu i'w ddefnyddio unwaith, esboniodd y cynghorydd cyfreithiol a ddaeth gyda'r Gweinidog y bydd yn amlwg mewn rhai achosion, ond ei fod yn meddwl bod lle i weithio gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau gorfodi i ddarparu canllawiau, a'i fod yn dychmygu y byddai mater o'r fath yn rhan o hynny.

**107.** Mewn perthynas â phlastigau ocso-ddiraddiadwy, dywedodd y Gweinidog:

*"Oxo-degradable plastics were included in the initial consultation, and we specifically asked a question on whether that type of plastic should be banned. The consultation acknowledged our original research had got limited information on that, and we sought further views and evidence. So, we intend to bring that ban in by the end of the Senedd term, but it is a complex area"*

*still being researched, and we'd be very interested to see what evidence the committee comes up with on that as well."*

**108.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylid cynnwys weips gwlyb â phlastigau ynddynt ar y rhestr o eitemau gwaharddedig, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymroddedig i roi weips gwlyb ar y rhestr hon, ond esboniodd:

*"The big issue with wet wipes, I'm afraid, is the labelling. So, currently, plastic content in wet wipes is not required by law. So, it's actually not possible to tell at the point of consumption whether your wet wipe has or hasn't got plastic in it. Product labelling is not devolved to Wales, so we'll be working with the UK Government to try to get them to get the product labelled."*

**109.** Cyfeiriodd y Gweinidog at fagiâu siopa y gellir eu compostio, gan ddweud mai unwaith yn unig y gellir eu defnyddio fel bag siopa, felly maent yn gynnrych untro. Dywedodd nad oes eisiau eu gweld yn y ffrydiau ailgylchu confensiynol gan eu bod yn dipyn o niwsans. Dywedodd y byddai'n well i bobl symud at gynhyrchion aml-ddefnydd a phethau sydd wedi'u cynllunio i bara'n hir.

**110.** Gan gyfeirio at y pŵer i ddiwygio'r rhestr a'r gofyniad adrodd yn adran 4(2) mewn perthynas ag unrhyw ystyriaeth gan Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid diwygio'r rhestr o eitemau gwaharddedig neu esemptiadau, dywedodd y Gweinidog:

*"that consideration will then be informed by expert advice, discussions with stakeholders and so on, but we'll be required to report, under the Government of Wales Act, as part of our normal reporting, whether or not we are going to add or not. It's in the negative as well, so we'll be required to report that we don't plan to add anything. I particularly wanted that, because I wanted any Government to have its feet held to the fire to consider whether there are things that should be banned, and to carry on having to put the research and effort into the continuing process of adding things to this list, where that's appropriate."*

**111.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y byddai'n sefydlu panel cynghori ar gyfer cynhyrchion untro, a fydd yn adolygu pob polisi'n rheolaidd, ac y bydd mecanweithiau priodol yn cael eu rhoi ar waith i gynnwys rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni'r cynigion.

## Ein barn ni

O ran y **diffiniadau** a ddefnyddir yn y Bil, rydym yn cytuno ei bod yn anodd sicrhau eglurder llwyr ac y bydd problemau bob amser. Rydym hefyd yn cytuno â rhanddeiliaid ei bod yn bwysig alinio'r diffiniadau. Rydym yn credu bod modd sicrhau unrhyw eglurhad pellach o'r diffiniadau drwy ganllawiau, ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud hynny. Fel yr ydym wedi'i nodi'n flaenorol, dylid diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth i ganllawiau gael eu gwneud ar y mater hwn a materion eraill.

Awgrymodd rhanddeiliaid wrthym y gallai problemau godi ynghylch y **diffiniad o 'untro'** ac roeddent yn gofyn a fyddai modd defnyddio aml-becyn o eitemau untro i osgoi'r gwaharddiad. Fe wnaethom ni godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog ac roeddem yn fodlon ar ei hymateb.

Roedd nifer o randdeiliaid yn credu y dylid gwahardd **gweithgynhyrchu a chyflenwi** yr eitemau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu yn yr Alban. Mae Llywodraeth Cymru wedi hepgor gweithgynhyrchu o'r Bil, ond nid ydym yn credu ei bod wedi egluro ei rhesymau dros wneud hynny'n ddigonol. Rydym yn nodi'r ddadl sydd wedi'i chyflwyno na ddylid atal busnesau rhag cyflenwi plastigau untro i fusnesau y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid yw maint yr effaith ar fusnesau Cymru yn eglur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil, sy'n dweud y gallai'r ddeddfwriaeth gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar ddeuddeg busnes â safleoedd yng Nghymru, naill ai oherwydd eu bod yn cynhyrchu eitemau gwaharddedig neu ddewisiadau amgen. At hynny, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y gallai rhai o'r busnesau hynny sy'n cynhyrchu plastigau untro fod wedi newid eu dulliau gweithredu eisoes mewn ymateb i'r gwaharddiadau presennol ar blastigau untro yn yr Alban a Lloegr. Nid yw'r hepgoriad hwn yn adlewyrchu ein huchelgeisiau i fod yn wlad sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Byddem yn ddiolchgar am esboniad gan y Gweinidog ynghylch pam na chafodd gweithgynhyrchu ei gynnwys.

O ran eitemau a **ddylai gael eu cynnwys ar y rhestr**, rydym yn cytuno y dylai'r Gweinidog fwrw ymlaen â gwaharddiad ar weips gwlyb sydd â phlastig ynddynt. O ran plastigau ocso-ddiraddiadwy, byddem yn ddiolchgar o gael y diweddaraf am waith ymchwil Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a rhagor o wybodaeth am fwriadau'r Gweinidog o ran gwaharddiad neu esemptiadau ar gyfer cynhyrchion o'r fath.

Rydym yn nodi'r sylwadau gan randdeiliaid ar yr **esemptiadau** i'r gwaharddiad ac y dylent fod yn fach iawn. Rhoddodd Anabledd Cymru dipyn i ni gnoi cil drosto ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl mesurau yn y Bil a thanlinellodd bwysigrwydd sicrhau y dylai grwpiau cynrychioliadol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion yn gynnar.

Rydym yn nodi'r pryderon bod yr **esemptiad ar gyfer gwellt** yn caniatáu iddynt gael eu darparu i berson os yw'r darparwr yn credu'n rhesymol bod eu hangen ar y person hwnnw am resymau iechyd neu anabledd, a'r hyn y bydd hyn yn ei olygu'n ymarferol. Ni allwn gael sefyllfa lle y mae pobl anabl yng Nghymru yn teimlo eu bod dan amheuaeth. Rhaid mynd i'r afael â hyn mewn canllawiau i gyflenwyr, drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflenwyr a'r cyhoedd, a thrwy hyfforddi cyflenwyr.

O ran y **broses ar gyfer ychwanegu eitemau neu esemptiadau** at y rhestr o blastigau untro gwaharddedig, rydym yn fodlon y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn darparu lefel briodol o graffu yn yr achos hwn. Fodd bynnag, rydym yn adleisio sylwadau rhanddeiliaid am yr angen i sicrhau bod ymgynghoriad ystyrion yn cael ei gynnal cyn cyflwyno unrhyw newidiadau. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y caiff panel cynghori ei sefydlu i adolygu'r polisi ac y bydd gan rhanddeiliaid ran yn y gwaith o ddatblygu cynigion.

## Argymhellion

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r Bil yn gwahardd gweithgynhyrchu plastigau untro yng Nghymru.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog egluro ei bwriadau ar gyfer plastigion ocsoddiraddiadwy mewn perthynas â'r Bil.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym i wahardd weips gwlyb â phlastig ynddynt.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog baratoi canllawiau sy'n esbonio sut y dylai cyflenwyr gymhwyso'r esemptiadau ar gyfer gwellt yn sgil cyflyrau iechyd neu anableddau. Ni ddylai pobl â chyflyrau iechyd neu anableddau fod o dan y chwyddwydr o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon. Yn benodol, dylai'r canllawiau ateb y cwestiwn o sut y disgwylir i gyflenwr ddod i 'gredu'n rhesymol' bod angen gwelltyn ar berson am resymau anabledd.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad llawn a chyhoeddus cyn cyflwyno rheoliadau i ddiwygio'r Atodlen.

## 5. Y drosedd a gorfodi

### Y drosedd

**112.** Mae adran 5 yn creu'r drosedd o gyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig. Mae'n rhestru disgrifiadau o berson na chaniateir iddo gyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr yng Nghymru (e.e. cyrff corfforaethol/unig fasnachwyr). Mae hefyd yn disgrifio ystyr cyflenwi – yn yr achos hwn, gwerthu, darparu am ddim, neu gynnig gwerthu neu ddarparu am ddim. Mae'n cynnwys disgrifiad o bersonau "atebol", er enghraifft, gweithwyr cyflogedig neu asiantau.

**113.** Mae adran 6 yn darparu bod person sy'n euog o drosedd o dan adran 5 yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**114.** Ar 20 Medi, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor i nodi, ymhlith pethau eraill, y byddai'n cynnig gwelliannau i adran 5 o'r Bil yng Nghyfnod 2:

*"i sicrhau na fydd y drosedd o "gynnig cyflenwi" cynnyrch plastig untro gwaharddedig yn gallu cael ei dehongli fel un sy'n cynnwys gweithredoedd nad oeddem yn bwriadu eu cynnwys. Yn benodol, mae'r newidiadau hyn yn sicrhau mai dim ond ar safleoedd yng Nghymru y gellid cyflawni'r drosedd. Wrth wneud hyn rydym hefyd am achub ar y cyfle i'w gwneud yn gliriach y byddai person sydd y tu allan i Gymru yn cyflawni trosedd os ydyn nhw'n "cyflenwi" cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru (er enghraifft trwy werthiant archeb ar-lein neu drwy'r post)."*

### A yw'r sancsiynau'n briodol?

**115.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw'r sancsiynau ar gyfer y troseddau a nodir yn y Bil yn gymesur, dywedodd Brett John (Ffederasiwn Busnesau Bach) ei bod yn ymddangos eu bod yn cyd-fynd â'r sancsiynau y gellir eu gorfodi mewn mannau eraill, gan ychwanegu:

*"I've emphasised throughout this session that it's not about how we can punish those businesses, but how we can help this change happen with them, rather than to them, so, clearly, that's the priority from our perspective."*

## Gorfodi

**116.** Mae adran 7 yn ymwneud â chamau gorfodi gan awdurdodau lleol. Bydd gan awdurdodau lleol bwerau i ymchwilio i gwynion, dwyn erlyniadau a chymryd camau eraill i leihau nifer yr achosion o droseddau o dan adran 5 yn eu hardal.

**117.** Mae adrannau 9 i 12 yn ymwneud â phŵer mynediad. O dan adran 9, caiff swyddog awdurdodedig awdurdod lleol fynd i mewn i fangre ar unrhyw adeg resymol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod trosedd wedi'i chyflawni, neu i ganfod a oes trosedd wedi'i chyflawni. Nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd. Rhaid iddo beidio â mynd i mewn i'r fangre drwy rym a rhaid dangos tystiolaeth ddogfennol os bydd gofyn iddo wneud hynny. Mae adran 10 yn ymwneud â phŵer mynediad ar gyfer anheddau. Mae'n darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd o dan amgylchiadau penodol. Caniateir cael mynediad drwy rym os oes angen.

**118.** Mae adran 13 yn ymwneud â phwerau archwilio ac yn rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre wneud amrywiol bethau i ganfod a oes trosedd wedi'i chyflawni. Caiff swyddogion gynnal arolygiadau ac archwiliadau o fangre, gofyn am eitemau sy'n cael eu cynhyrchu yn y fangre, eu harchwilio, a chymryd samplau neu eitemau. Caiff y swyddog hefyd ofyn am wybodaeth a chymorth gan unrhyw berson ond nid yw'n ofynnol i'r person hwnnw ateb cwestiynau na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod eu hateb neu ei chyflwyno yn ystod achos llys yng Nghymru a Lloegr.

### Awdurdodau lleol a gorfodi

**119.** Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bryderon ynghylch diffyg adnoddau a chapasiti mewn awdurdodau lleol i orfodi'r gwaharddiad yn effeithiol. Dywedodd Will Henson (y Sefydliad Materion Cymreig) wrth y Pwyllgor:

*"I do have some concerns in terms of the resourcing of local authorities in enforcing this. I think that, given the availability of items on the internet, given the availability of the items that will be in stock, if we continue right down the line and England doesn't ban further items but Wales does, they can be very easily accessible, and it's going to be down to local authorities to make sure that outlets are complying."*

**120.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nad oes capasiti dros ben a rhybuddiodd Cyngor Sir y Fflint:



*"Without additional resources being made available to Local Authority for enforcement, the expectations of the public will not be met and behaviour change may not happen."*

**121.** Tynnodd Judith Parry (CLILC) sylw at y ffaith bod y ddeddfwriaeth yn darparu y 'gall' awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi, yn hytrach na gosod dyletswydd arnynt i wneud hynny. Dywedodd fod hyn yn golygu y bydd rhai awdurdodau lleol yn gweld hynny fel dewis i beidio â gorfodi oherwydd bod eu hadnoddau'n prinhaus.

**122.** Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd mai timau safonau masnach fyddai'n arwain yr ymateb gorfodi, ac y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar adnoddau'r timau hynny. Tynnodd sylw at lwyddiant y broses o weithredu'r ddeddfwriaeth ynghylch yr isafbris uned ar gyfer alcohol, gan ddweud:

*"...funding was provided to local authority trading standards departments over a period of a few years, after which it became business as usual and could be absorbed by the teams. Funding was phased to allow for officer training, guidance visits and then targeted enforcement visits."*

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**123.** Mewn ymateb i gwestiwn am y darpariaethau gorfodi a chapasiti awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog:

*"To start off with, we're going to talk about education and engagement with retailers and business representatives before enforcement; we're learning this from our carrier bag experience, really. So, there'll be a whole period where what the local authority officers are doing is explaining to people what the law is, rather than immediately going straight to, 'We're going to fine you,'"*

**124.** Esboniodd y Gweinidog, oherwydd y broses hon, ei bod yn meddwl, fel y bag siopa untro, na fydd bron dim gorfodi yn y pen draw gan awdurdodau lleol, ac eithrio pobl sy'n cymryd safiad bwriadol yn hytrach na phobl nad ydynt yn deall. Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud, os yw hyn yn anghywir, y bydd gwaith yn cael ei wneud gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod ganddi adnoddau priodol.

**125.** Gan gyfeirio at welliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2 i egluro y byddai cyflenwyr o'r tu allan i Gymru yn cyflawni trosedd pe byddent yn cyflenwi plastig untro gwaharddedig i rywun yng Nghymru, esboniodd y Gweinidog:

*"section 17 of the Bill enables us to make regulations providing for civil sanctions to be made in respect of criminal offences created under section 5, and the intention is that Welsh Ministers will exercise that power to ensure civil sanctions are available to local authorities as an alternative to criminal sanctions for the offence of supply, basically. So, an offence can only be committed when a product is supplied to a consumer in Wales. We recognise that there are all kinds of practical steps in enforcing the offence in respect of distance selling. If you're buying something on the internet, it's very difficult. But the primary purpose of this Bill is to encourage a change in behaviour rather than resulting in numerous convictions."*

## Ein barn ni

Rydym yn fodlon bod y **drosedd a'r sancsiynau cysylltiedig** yn briodol. Unwaith eto, rhaid inni bwysleisio'r angen i sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'r eitemau sydd wedi'u gwahardd a'r dewisiadau amgen a fyddai'n dderbyniol. Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud y byddai cyfnod o 'ymgysylltu ac addysg' i helpu cyflenwyr i ddeall eu rhwymedigaethau. Mae'r Gweinidog yn disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni hyn. Ar sail y dystiolaeth a gawsom, nid ydym yn argyhoeddedig bod y disgwyliad hwn yn realistig. Rhaid i'r Gweinidog ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar fyrder i ganfod sut y gellid cyflawni hyn. Os oes angen, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i awdurdodau lleol wneud y gwaith hwn.

At hynny, mynegodd llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch **capasiti awdurdodau lleol** i orfodi'r gwaharddiad yn effeithiol. Rydym yn rhannu'r pryderon hyn. Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed y gallai rhai awdurdodau lleol ddewis peidio â chymryd camau gorfodi oherwydd diffyg capasiti. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog nad oes cynllun ar hyn o bryd i roi cymorth ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer camau gorfodi. Hefyd, dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl i'r angen am gamau gorfodi leihau i bron ddim dros amser. Serch hynny, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar y mater hwn, a hynny i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ymdrin â materion gorfodi yn gynnar ar ôl cyflwyno'r gwaharddiad.

Yn olaf, mae'r Gweinidog wedi ymrwmo i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn gliriach y bydd **cyflenwyr y tu allan i Gymru** yn cyflawni trosedd os byddant yn cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru. Caiff hyn ei gyflawni drwy sicrhau bod sancsiynau sifil ar gael i awdurdodau lleol. Cyfaddefodd y Gweinidog mai gweithred symbolaidd yw hon i raddau helaeth ac nad yw'n debygol o gael ei gorfodi. Serch hynny, mae gennym bryderon am y ddarpariaeth hon. Yn benodol, nid yw'n glir sut y bydd

disgwyl i gyflenwr y tu allan i Gymru wybod y bydd yn cyflawni trosedd os yw'n cyflenwi plastigau untro penodol i berson yng Nghymru. Dim ond os yw'r troseddwr posibl yn ymwybodol ohono y bydd y mesur hwn yn effeithiol fel ataliad. Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Argymhellion

**Argymhelliad 14.** Rhaid i'r Gweinidog egluro sut y mae hi wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch eu capasiti i wneud gwaith 'ymgysylltu ac addysg' gyda chyflenwyr.

**Argymhelliad 15.** Rhaid i'r Gweinidog egluro pa gymorth, boed yn ariannol neu fel arall, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i awdurdodau lleol er mwyn gwneud gwaith 'ymgysylltu ac addysg' gyda chyflenwyr.

**Argymhelliad 16.** Rhaid i'r Gweinidog egluro pa gymorth, yn ariannol neu fel arall, a fydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer camau gorfodi, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf.

**Argymhelliad 17.** Rhaid i'r Gweinidog egluro sut y bydd yn sicrhau bod cyflenwyr y tu allan i Gymru yn ymwybodol y byddant yn cyflawni trosedd os byddant yn cyflenwi eitem blastig untro waharddedig i berson yng Nghymru.